Met Office



# Ymchwilio i dywydd eithafol

**Trosolwg**

"Sut mae'r tywydd yn gwneud i chi deimlo?" Trwy'r gweithgaredd hwn, byddwch yn ymchwilio i ddigwyddiadau tywydd eithafol o bob cwr o'r byd a sut mae artistiaid, storïwyr, gwneuthurwyr ffilmiau a mwy wedi dod â nhw'n fyw. Byddwch yn greadigol â'r hyn rydych chi'n ei ddysgu, a gwnewch eich arddangosfa eich hun sy'n portreadu'r tywydd mewn ffordd ddiddorol.

**Camau'r gweithgaredd**

**01** **Gwaith ymchwil**


Pa fathau gwahanol o ddigwyddiadau tywydd eithafol rydych chi wedi clywed sôn amdanyn nhw? Edrychwch ar-lein i gael gwybod sut mae stormydd, corwyntoedd, tornados, stormydd eira, llifogydd, tonnau gwres ac eraill wedi cael eu cynrychioli gan wahanol artistiaid. Pa ddarnau rydych chi'n eu hoffi? Sut maen nhw'n gwneud i chi deimlo?

**Amser angenrheidiol**

45 munud

**Deunyddiau angenrheidiol**

- Mynediad i'r we
- Deunyddiau crefft amrywiol





### Awgrym

Ydych chi'n cael trafferth ymchwilio i gelf tywydd eithafol? Dechreuwch yma: **www.tate.org.uk/art/student-resource/exam-help/weather**

## 02

### Arbrofi

I danio'ch creadigrwydd wrth ystyried rhai ffyrdd diddorol o greu darn o gelf tywydd eithafol, beth am ail-greu rhai arbrofion ymarferol fel **Storm mewn Pot?** Gallech hefyd geisio gwneud un o'r arbrofion eraill sydd ar gael **yma**.

## 03

### Dylunio

Pa fath o dywydd rydych chi am ei ddangos? Penderfynwch ar gyfrwng ar gyfer eich darn o gelf sydd, yn eich barn chi, yn cyd-fynd â'r neges rydych am ei chyfleu – ydych chi am wneud paentiad, collage, ffilm fer neu ddrama, tynnu lluniau neu wneud rhywbeth arall? A fydd eich darn o gelf yn realistig neu'n haniaethol? Efallai yr hoffech ddrafftio'ch syniad cyn i chi ddechrau ei greu.

### Awgrym

Wrth ddylunio eich darn o gelf, ystyriwch eich cynulleidfa. Sut ydych chi am i'ch cynulleidfa deimlo wrth edrych ar y darn hwn o gelf? Pa wybodaeth rydych chi am iddo ei rhoi i'ch cynulleidfa am yr hyn rydych chi'n ei bortreadu?

## 04

### Creu

Rhowch eich syniadau ar waith ac ewch ati i greu eich campwaith. Efallai y byddwch yn newid rhai o'ch cynlluniau yn ystod y broses, ond cofiwch nod gwreiddiol eich darn.

### Awgrym

Meddyliwch sut y gall eich celf ddangos i'r gynulleidfa sut mae'r tywydd yn teimlo. Allwch chi greu rhywbeth i gynrychioli eira sy'n teimlo'n oer wrth edrych arno neu ei glywed? Allwch chi wneud rhywbeth i gynrychioli gwynt sy'n atgoffa pobl sut mae bod y tu allan ar ddiwrnod gwyntog yn teimlo?

Mae'r Swyddfa Dywydd yn darparu cynnwys addysg am ddim i gefnogi pobl ifanc rhwng 7 ac 14 oed i fod yn barod ar gyfer effeithiau'r tywydd a newid yn yr hinsawdd arnyn nhw a'u cymunedau. Dysgwch ragor yma: **www.metoffice.gov.uk/schools**

© Hawlfraint y Goron 2019, Y Swyddfa Dywydd